



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Mike Hedges AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Medi 2019

Amwyl Cadeirydd,

Ymchwiliad i Dlodi Tanwydd

Diolch am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ar Dlodi Tanwydd.

Mae tlodi tanwydd yn parhau'n broblem sylweddol i bobl hŷn ledled Cymru gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos fod oddeutu 88,000 o aelwydydd hŷn yn byw mewn tlodi tanwydd.¹ Mae hyn er gwaethaf dyletswydd statudol i ddileu tlodi tanwydd yn Neddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000, ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, na ddylai neb yng Nghymru fod yn byw mewn tlodi tanwydd erbyn 2018.²

Er bod nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd wedi haneru dros y degawd diwethaf,³ o ganlyniad i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a chyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru, mae'n achosi pryder fod cynifer o bobl hŷn yn parhau i fyw mewn tlodi tanwydd, gan, o bosibl, fod yn dewis rhwng gwresogi eu cartrefi a bwyta'n iawn.

Dylai strategaeth newydd Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd barhau i adeiladu ar lwyddiannau'r gwasanaeth wedi'i deilwra a'r gwasanaeth cyfeirio yn 'canolbwyntio ar yr unigolyn' y bu'r rhaglen Nest yn ei ddatblygu ochr yn ochr â'i phartneriaid yn y sector gwirfoddol dros y blynyddoedd diwethaf a rhaid iddi gynnwys gwirio'r hawl i fudd-daliadau.

Mae'n bwysig peidio â 'dadfachu' tlodi tanwydd oddi wrth y broblem ehangach o dlodi ymysg pobl hŷn. Mae dros 20% o bobl hŷn yn byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru, ac i lawer o bobl hŷn, mae misoedd hir y gaeaf yn golygu'r benbleth anochel ynghylch 'gwresogi neu fwyta',⁴ gyda 25% o bobl hŷn yn prynu bwyd rhatach, neu lai ohono.

03442 640 670

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cynyddu incwm aelwydydd yn ffactor sylweddol o ran atal tlodi tanwydd ac mae'n hanfodol i bobl hŷn fod yn gwbl ymwybodol o'r holl hawliadau ariannol y maent yn gymwys i'w derbyn, a'u bod yn cael eu hannog i hawlio'r rhain. Amcangyfrifir bod hyd at £214m o Gredyd Pensiwn nad yw'n cael ei hawlio yng Nghymru bob blwyddyn.⁵

Gallai pobl hŷn gydag incwm pensiwn o lai na £167.25 (£255.25 i gyplau) fod yn gymwys i daliad Credyd Pensiwn a fyddai'n ychwanegu at eu hincwm. Y cyfartaledd a dderbynnir gan y rhai sy'n ei hawlio yw £58 yr wythnos, a all wneud gwahaniaeth o oddeutu £3,000 y flwyddyn i'w hincwm. Gall hawlio Credyd Pensiwn hefyd ddatgloi ystod o hawliau eraill fel gostyngiad yn y dreth gyngor, triniaeth ddeintyddol am ddim a chymorth gyda chostau tai.

Pe byddai mwy o bobl yn hawlio'r budd-dal, byddai'n ffordd arwyddocaol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymysg rhai o'r bobl hŷn dlotaf a rhaid i'r strategaeth newydd adeiladu ymhellach ar lwyddiant gwirio'r hawl i fudd-daliadau a chefnogi mesurau a gyflawnwyd hyd yma.

Rhaid i'r strategaeth newydd wella ymhellach y gwahanol lwybrau cyfeirio a chynnwys partneriaethau drwy awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd, sefydliadau'r trydydd sector ac elusennau er mwyn canfod ac estyn allan at yr aelwydydd agored i niwed hynny sy'n parhau i fyw mewn tlodi tanwydd.

Er mwyn sicrhau bod cartrefi newydd yn hynod effeithlon o ran ynni, dylai Llywodraeth Cymru gynnal trosolwg fel bod pob datblygiad tai yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n datgan bod yn rhaid i'r system gynllunio 'sicrhau bod modd darparu amrywiaeth o dai'r farchnad agored a thai fforddiadwy sydd wedi'u dylunio'n dda, yn effeithlon o ran ynni ac o ansawdd da a fydd yn helpu i greu lleoedd cynaliadwy'.⁶

Yn olaf, oherwydd y niferoedd o aelwydydd agored i niwed sy'n parhau i fyw mewn tlodi tanwydd, rhaid i'r strategaeth gynnwys rhaglen waith wedi'i diffinio'n glir ar gyfer y ddau gynllun. Dylai'r rhaglenni gwaith gynnwys cerrig milltir ystyrlon, yn disgrifio erbyn pa bryd y disgwylir gostwng lefelau tlodi tanwydd a faint fydd y gostyngiad, yn flynyddol. Dylai cynnydd/cyfraniad yn erbyn y cerrig milltir gael eu hadlewyrchu yn adroddiad blynyddol pob cynllun.

Rwy'n gobeithio bod y sylwadau hyn yn ddefnyddiol. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â George Jones, fy Arweinydd Gwasanaethau Cymunedol a Chynhwysiant, ar 03442 640 670 neu drwy anfon e-bost at george.jones@olderpeoplewales.com.

*Yn gywir,
Helena Herklots*

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

-
- ¹ Llywodraeth Cymru. (2019). *Amcangyfrifon tlodi tanwydd yng Nghymru: 2018*; <http://bit.ly/2mBiRXj>
- ² Llywodraeth Cymru. (2010). *Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010*; t.7; Ar gael yn <http://bit.ly/2IstwDz>
- ³ Llywodraeth Cymru. (2019). *Amcangyfrifon tlodi tanwydd yng Nghymru: 2018*; <http://bit.ly/2mBiRXj>
- ⁴ Age Cymru. (2014). *AMs discuss fuel poverty among older people in Wales*; <http://bit.ly/2mEto3l>
- ⁵ Independent Age. (2019). *Pension Credit: A closer look*. <http://bit.ly/2mFWIXz>
- ⁶ Llywodraeth Cymru. (2018). *Polisi Cynllunio Cymru: Argraffiad 10*; <http://bit.ly/2l25HCd>